

COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED BRO CERNYW
7:30YH 28^{AIN} MEDI 2022
CYNHALIWYD YN LLANGERNYW

1 CROESO AC YMDDIHEURIADAU

1.1 Croesawyd bawb gan Clwyd Roberts (CR)

1.2 Presennol: R. Emlyn Williams (REW), Ann Vaughan (AV), Mark Davies (MD), Myrddin Davies (MGD), Diane Roberts (DR), Austin Roberts (AR) & Gwydion Jones (GJ)

1.3 Ymddiheuriadau: Jane Roberts (JR) & Einir Williams (EW)

Aelod o'r cyhoedd (Non Davies) yn bresennol.

2 DATGANIAD DIDDORDEB

Dim datganiad.

3 COFNODION I'W GWIRO 27^{AIN} GORFFENNAF 2022

Cynnigwyd yn gywir gan REW ac eilwyd gan MD.

4 MATERION YN CODI

DR yn nodi fod Stalif yn cael ei ddiddymu a bydd hyfforddiant yn y dyfodol ar Zoom.

AR heb glywed gan Emyr Rowlands ynglyn â'r arwyddion fflachio. Adroddodd fod materion yma yn cymeryd amser, AR yn mynd i gysylltu efo Emyr Rowlands i ofyn am ddiweddariad.

5 CAIS CYNLLUNIO

5.1 DC/0/49971 DR wedi methu agor y dogfennau. Nododd AR ei fod yn gais ôl-weithredol. CR am ofyn am estyniad oherwydd nifer y dogfennau. DR wedi gofyn wrth Peter Wood pam nad oedd yr eiddo wedi bod yn talu treth, yr ateb oedd efallai fod wedi disgyn trwy'r craciau. Adroddodd CR fod y dogfennau yn newydd ar gyfer y cais yma. DR hefyd wedi sôn wrth Peter Wood y buasai'n syniad iddo wneud ymholiadau â Heddlu Gogledd Cymru ynglyn â'r adeilad. Soniodd MGD fod y perchennog yn gofyn yn gyhoeddus am ddeunyddiau megis teils ayyb. AR yn nodi fel arfer fod 9 cais allan o 10 ôl-weithredol yn cael eu cymeradwyo ac yn adrodd fod yn bwysig i'r Cyngor Cymuned roi rhesymau pendant i wrthod y cais. REW yn cynnig ymateb nad yw'r ffeithiau yn y cais yn gywir. AR yn sôn fod angen profi nad yw'r adeilad wedi cael ei ddefnyddio ar gyfer y pwrpas y cafodd ei adeiladu. MGD yn sôn fod y cais yn nodi taw prif bwrpas oedd anedd ond fod y trydan ar gyfri busnes. Dim cofnod o filiau dŵr. Pawb yn gytun i wrthwynebu'r cais. CR am lunio llythyr i ymateb a'i yrru i DR cyn ei yrru i'r Cyngor Sir.

5.2 DC/0/49956 DR wedi methu ateb y cais yma chwaith. Dim gwrthwynebiad, mantais i'r ardal, cymeradwyo.

5.3 DC/0/49947 Cais trylwyr. Adeilad rhestredig. Dim gwrthwynebiad, cymeradwyo.

5.4 DC/0/49929 Cais wedi ei basio yn barod. AV yn adrodd fod JR wedi bod yn gweld y tŷ. Dim sylwad.

6 MATERION CYNGOR

6.1 CR wedi cael neges gan EW ynglyn â cyhoeddi beth oedd y 6 aelod o'r cyhoedd wedi rhoi mewn. DR wedi holi Un Llais ac adroddodd nad oes modd rhoi fel atodiad, angen eu cynnwys yn y cofnodion. EW wedi derbyn 4 allan o 6.

Non Davies yn nodi fod angen gwneud yn siwr fod y cofnodion yn gytbwys ac yn cofnodi beth oedd aelodau'r cyhoedd wedi ei ddweud. Non Davies hefyd yn dweud fod ebyst i gyfri'r Cyngor heb eu cyhoeddi yn y cofnodion chwaith.

DR wedi holi Un Llais i ofyn os oes modd rhoi un ateb i'r ebyst fel oedd EW wedi grybwyll ond angen rhoi ymateb unigol i'r ebyst.

Non Davies yn rhoi diweddariad, Gemma Hamilton bellach ddim yn gweithio efo Bute Energy a bwriad i roi solar a storfeydd batri. Cynllun Cymru'r Dyfodol, dim canllawiau i gyd fynd efo'r polisi. Dau safle ym Mhywys wedi mynd ymhellach. Cymdeithas Cadwraeth Berfeddwlad wedi cael ei sefydlu.

6.2 Cynllun Hyfforddiant angen cael ei wneud erbyn 5ed Tachwedd a hefyd angen cael datganiad blynyddol ar y wê. Dim canllawiau ar gael. Am ofyn wrth Mel o Un Llais beth sydd yn ddisgwyliedig. Côt Ymddygiad – os oes achos yn dod o flaen Cyngor efo'r ombudsman a fod cynghorwyr ddim wedi dilyn y côd y buasai'n adlewyrchu'n wael ar y cyngor felly'n ddisgwyliedig mynd ar y cyrsiau.

MGD yn gofyn os oes angen mynychu pob un o'r cyrsiau neu ond y rhai sydd yn berthnasol i'r Cyngor. Angen i'r cynllun adlewyrchu beth mae'r Cyngor yn bwriadu wneud. DR am yrru'r cynllun hyfforddi ymlaen i'r Cynghorwyr.

MD yn gofyn os oes modd hawlio tâl mynychu'r hyfforddiant yn ôl, rhai cyrsiau am ddim ond angen talu am rhai. I'w drafod yn ystod y cyfarfod nesaf.

6.3 AR wedi cael cwynion gan Peter Malethan ynglyn â phroblem baw cŵn yn Gwytherin. AR wedi edrych i mewn i'r mater, dydi'r Cyngor Sir ddim bellach yn cyflenwi biniau pwrpasol baw ci newydd oherwydd toriadau cyllid – cost cyflenwi a gwagio. Rhai gwasanaethau ddim yn statudol megis biniau baw. Os fuasai'r Cyngor Cymuned yn talu am finiau, ni fuasai'r Cyngor Sir yn gwagio'r biniau. Mae yna 2 fin sbwriel yng Ngwytherin, Cyngor Sir yn dweud fod rhain i'w defnyddio yn lle biniau baw ci.

Bin baw ci wedi diflannu o Glan Collen. AR yn awgrymu cysylltu efo ERF i ofyn am fin newydd yn ei le.

6.4 AV wedi archebu coed gan y Woodland Trust, byddant yn cyraedd ddiwedd Hydref/ddechrau Tachwedd. Wedi cysylltu efo Ysgol Bro Cernyw i sôn fod y coed ar y ffordd ac os fuasai'r plant yn cael helpu neu archebu pecyn eu hunain. Diolchodd REW i AV am drefnu. Cynnig i gymdeithasau lleol helpu i blannu.

Ardd Gerrig wedi cael ei strimio.

7 MATERION ARIANNOL

7.1 Cododd DR fod angen rhoi llawer o wybodaeth ar gyfer y gyllideb a rhoi rhesymau ar gyfer y ffigyrau. DR am baratoi adroddiad ariannol ail chwarter y flwyddyn ar gyfer y cyfarfod nesaf, i'w roi ar yr agenda.

8 GOHEBIAETH

8.1 MGD yn hapus i fynd ar y pwyllgor llywodraethwyr ar ran y Cyngor Cymuned.

8.2 Wedi derbyn gohebiaeth ynglyn â Bryn Castell, o dan ymchwiliad gan Cyngor Sir.

9 ADRODDIAD CYNGHORYDD SIR

Bryn Castell o dan ymchwiliad gan adran gynllunio Conwy. REW wedi codi'r mater yma yn flaenorol.

Car wedi mynd.

Cais ôl-weithredol yn Wern Bach ar gyfer llety gwyliau, ddim yn rhagweld problem efo'r cais. Penderfyniad yn cael ei wneud gan y pwyllgor cynllunio os fydd y swyddog cynllunio yn gwrthod y cais.

Cais ar gyfer Bodrach, wedi cael caniatad ond eisiau newid y motor i un mwy yn y tyrbein. Bydd hwn yn dod yn ôl i'r Cyngor Cymuned eto.

Ffordd Pandy o Coetmor draw at y fynwent – gwaith yn dechrau ar 10^{fed} Hydref, debygol o gymeryd wythnos i wneud y gwaith.

Ffordd A548 wedi cau oherwydd fod cross drain yn cael ei wneud ger Ddol Bach. AR wedi gofyn os oedd modd rhoi'r ffordd o dan reolaeth goleuadau traffic. Wedi rhoi pwysau ar y Cyngor Sir i wneud y gwaith cyn gynted a phosibl fel fod modd ail agor y ffordd i oleuadau ond heb gael ymrwymiad ond gobeithio fydd hyn o fewn y pythefnos nesaf.

Wedi cael cwynion gan bobl fod coed ar ochr llwybr Hafodunos, wedi cael gwybod gan Cyngor Sir os yw'r llwybr yn glir nad oes gan y Cyngor hawl i glirio'r coed. Wedi cael cadarnhad gan y perchennog y bydd mwy o goed yn cael eu torri ddechrau'r flwyddyn nesaf a bydd y coed i gyd yn cael eu clirio adeg hono.

Canolfan a Tŷ Gwytherin, methu rhentu allan oherwydd cyflwr y tŷ. Wedi cysylltu efo adran asedau'r Cyngor, wedi anfon gwybodaeth i AR ynglyn â'r cyflwr, adroddiad gan surveyor angen gwario dros £200,000 ar yr adeilad. Mae'r Ganolfan yn dal yn talu treth ar y tŷ. Wedi gofyn am rif cyfrif y dreth ac am ofyn efo adran y dreth i ofyn os oes modd i ddileu'r dreth oherwydd taw adeilad Cyngor Sir Conwy ydyw. Am drefnu cyfarfod efo'r Cyngor Sir i weld sut all y Cyngor helpu'r Ganolfan.

Llwybr 50 ar lan yr afon, wedi gwneud ymholiadau ynglyn â hwn. Wedi cael addawiad fydd y gwaith yn cael ei wneud yn y Gaeaf, o bosibl ddechrau flwyddyn nesaf. AR am fynd ar ôl y mater yma.

AR wedi gofyn wrth Delyth, clerc Eglwysbach os byddai ganddi ddiddordeb i ymgymryd â'r swydd. Heb gael ateb felly cymeryd nad oes ganddi ddiddordeb.

Rhandiroedd – wedi mynychu cyfarfod yn yr Eglwys ac aelod o'r cyhoedd wedi gofyn os oedd modd cael rhandiroedd yn Llangernyw. Mae tir tu ôl i'r ysgol, AR wedi gwneud ymholiadau efo'r Cyngor Sir ond ddim yn obeithiol oherwydd fod ar dir yr ysgol, angen mynd drwy DBS. Efallai y buasai pobl sydd yn cael y rhandiroedd ddim yn dod o'r pentref. AR ddim yn meddwl y daw dim o'r mater. AR am ofyn beth yw bwriad yr adran addysg ynglyn â'r tir.

DR wedi gwneud ymholiad hefyd os oedd modd i anifeiliaid bori'r tir, cadarnhaodd AR nad oes caniatad i wneud hyn.

REW yn adrodd fod y safle bws dal yn broblem.

10 BILIAU

10.1 Enlli – £168.15, cytunwyd i dalu.

10.2 Dei Evans – torri glaswellt mynwentydd Awst £450 a Medi £400, cyfanswm £800. Cytunwyd i dalu. Adroddodd DR fod canmoliaeth mawr fod y fynwent yn daclus.

10.3 Dŵr Cymru – mynwent Llangernyw £13.01, cytunwyd i dalu.

10.4 Sgip ar gyfer Gwytherin 24^{eg} Gorffennaf - £288, cytunwyd i dalu. Neb wedi gweld sgip ym Mhandy Tudur, EW wedi gwneud ymholiadau efo'r Cyngor Sir.

10.5 Anfoneb i dacluso'r ardd gerrig gan Wil Edwards - £30, cytunwyd i dalu. Canmoliaeth mawr am y gwaith taclus. AV am baratoi cerdyn i ddiolch i Wil am ei waith.

10.6 Paent ar gyfer y canllaw yn y fynwent - £40.28, cytunwyd i dalu.

10.7 Planhigion ar gyfer y tybiau blodau - £67.27, cytunwyd i dalu.

11 MATERION LLEOL

REW wedi bod yn nôl ffurfleni datgan diddordeb o'r cwpwrdd. Gofyn am gais i gopio goriad y cwpwrdd oherwydd fod angen i Eifion fod yn bresennol i fenthylg y goriad. Pawb yn gytun i REW ofyn am dorri goriad.

Gohebiath yn y cwpwrdd ers 2014 ynglyn a safle bws Gwytherin.

Cerrig wedi hel pan yn agor bedd, cerrig yn cael eu rhoi wrth y clawdd. Gofyn wrth Kevin Roberts i symud y cerrig.

AV yn adrodd fod JR wedi sôn nad yw un drws yr hysbysfwrdd yn agor. CR am holi Elwen Owen os oes ganddi oriad iddo.

DR gofyn os oes safle glampio yn Gwytherin, gofyn os oes angen caniatad ar eu cyfer. MGD yn codi fod eithriad i fyny at 60 diwrnod heb ganiatad.

Gofyn os yw Tan y Ffordd yn cael ei adnabod fel enw arall. Roedd wedi gweld y tŷ ar safle wê. Wedi gofyn wrth Conwy os oedd estyniad wedi cael ei wneud ac wedi cael ateb nad oedd ganddynt ddim byd ar gyfer Tan y Ffordd. CR am edrych am y cyfeirnod grid a'i basio ymlaen i DR.

Gor-yrru lawr o allt Llansannan am Gwytherin.

CR wedi derbyn *Business Register and Employment Survey* drwy'r post. Cais wedi'w wneud am fersiwn Gymraeg.

Wedi ceisio cysylltu efo Sera Thomas ond heb glywed yn ôl ganddi.

12 CYFARFOD NESAF

26^{ain} Hydref 2022 yn Gwytherin

Cyfarfod yn dod i ben 9:25pm

Cymerwyd y cofnodion gan Enlli Vaughan